OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1609

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020

## RHAN 6

### Darparu addysg mewn ysgol

**Darparu addysg mewn ysgol i ddisgyblion penodol pan fo mangreoedd ysgolion ar gau**

**22.**—(1) Mae paragraff (3) yn gymwys mewn perthynas â disgybl perthnasol—

(a) os yw mangre'r ysgol y mae'r disgybl wedi ei gofrestru ynddi ar gau i'r disgybl hwnnw am gyfnod o 3 diwrnod ysgol yn olynol o leiaf, a

(b) os yw'r cau mewn ymateb i fygythiad i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad y coronafeirws.

(2) At ddibenion paragraff (1), ystyr "disgybl perthnasol" yw disgybl cofrestredig—

(a) y mae'r awdurdod lleol priodol sy'n cynnal yr ysgol y mae'r disgybl wedi ei gofrestru ynddi yn ystyried ei fod yn blentyn i weithiwr hanfodol, neu

(b) y mae perchennog yr ysgol y mae'r disgybl wedi ei gofrestru ynddi yn ystyried y dylai'r disgybl fynd i'r ysgol oherwydd ei hyglwyfedd.

(3) Rhaid i berchennog yr ysgol y mae'r disgybl wedi ei gofrestru ynddi wneud trefniadau i'r disgybl fynd i fangre ysgol at ddiben darparu addysg ar y trydydd diwrnod ysgol a phob diwrnod ysgol dilynol yn y cyfnod pan fydd mangre'r ysgol y mae'r disgybl wedi ei gofrestru ynddi ar gau.

(4) Ond nid yw paragraff (3) yn gymwys os, ar y diwrnod ysgol o dan sylw—

(a) yw'n ofynnol i'r disgybl beidio ag ymadael â'r man lle y mae'r disgybl yn byw neu beidio â bod y tu allan i'r man hwnnw yn rhinwedd rheoliad 6(2), 7(2), 8(2)**[**[F1]neu 9(2)**]**, neu

(b) os yw'r disgybl yn ynysu fel arall ar ôl—

(i) cael ei hysbysu drwy ap ffôn clyfar Covid 19 y GIG a ddatblygir ac a weithredir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, neu

(ii) cael ei gynghori i wneud hynny gan berchennog yr ysgol lle y mae'r disgybl wedi ei gofrestru neu gan ddarparwr gofal plant.

(5) Wrth benderfynu, at ddibenion paragraff (1)(a), a yw mangre ysgol ar gau i ddisgybl, mae'r ffaith y gall y fangre honno fod ar agor yn rhinwedd paragraff (3) i'w diystyru.

(6) Wrth benderfynu a yw disgybl yn blentyn i weithiwr hanfodol, rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ynghylch nodi plant gweithwyr hanfodol.

### Diwygiadau Testunol

**F1** Geiriau yn rhl. 22(4)(a) wedi eu hamnewid (27.2.2021) gan Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2021 (O.S. 2021/210), rhlau. 1(2), **2(5)**

### Gwybodaeth Cychwyn

**I1** Rhl. 22 mewn grym ar 20.12.2020 (fel y diwygiwyd gan O.S. 2020/1610, rhl. 2(2)), gweler **rhl. 1(3)**

**I2** Rhl. 22 mewn grym ar 23.12.2020, gweler **rhl. 1(4)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 27/02/2021.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.